# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-07-09 Papur 3: 2 Ebrill 2009**

## Y Pwyllgor Cynaliadwyedd - Sesiwn Graffu  - Ymchwiliad i 'Sut mae Polisïau a Thargedau Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy wedi'u prif ffrydio o fewn portffolios'

### Yr Adran Dreftadaeth

### 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae cefnogi a chynnal ein traddodiadau, ein hieithoedd a'n treftadaeth yn hanfodol er mwyn creu Cymru gynaliadwy ac yn elfen hanfodol o'i diwylliant cyfoethog ac amrywiol.

1.2 Mae ein tirweddau a'n hadeiladau hanesyddol yn hanfodol i'n hymdeimlad o le, ac i'n hymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn. Drwy ddefnyddio treftadaeth a diwylliant i hyrwyddo adfywio cynaliadwy, gallwn ennyn diddordeb cymunedau lleol, gwella'u lles, a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig fel adnodd sydd ar gael i bawb.

1.3 Mae'r modd y mae Cymru'n gweithredu ym maes datblygu cynaliadwy yn seiliedig ar gyfraniad ei phobl ac wedi'i wreiddio yn ei diwylliant.

### 2. Twristiaeth a Marchnata

2.1 Rydym yn awyddus i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn flaenllaw ym maes twristiaeth gynaliadwy, a bod y dwristiaeth honno'n hyrwyddo ffyniant economaidd cynaliadwy yn lleol, yn cefnogi lles ac ymlyniad cymunedol/ei bod o fudd i'r gymuned ac yn ei chynnwys, yn gwella'r amgylchedd lleol a diwylliant, ac yn rhoi profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr.

**Y Cyd-destun Polisi**

**Y Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy**

2.2 Diben y Fframwaith yw amlinellu'r hyn y mae datblygu cynaliadwy'n ei olygu i'r sector twristiaeth yng Nghymru. Mae'n anelu at roi arweiniad i'r rheini sy'n gyfrifol am hyrwyddo a datblygu twristiaeth yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, a hynny er mwyn sicrhau bod twristiaeth yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru

**Y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy**

2.3 Eir ati yn y Cynllun Gweithredu i amlinellu'r amryfal gamau y bydd angen eu cymryd er mwyn gweithredu'r nodau a'r amcanion allweddol a amlinellir yn y Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy i Gymru. Mae'r Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy wedi paratoi'r Cynllun Gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau craidd a nodwyd yn y Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy, a'r Fforwm hefyd fydd yn gyfrifol am roi'r camau hyn ar waith. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys nifer o'r mentrau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn ogystal â gweithgareddau newydd.

**Y Strategaeth Twristiaeth Arfordirol**

2.4 Lansiwyd y Strategaeth Twristiaeth Arfordirol ym mis Rhagfyr 2008 ac mae'n nodi strategaeth gytûn ar gyfer datblygu potensial twristiaeth yr arfordir mewn modd cynaliadwy, gan ymateb ar yr un pryd i anghenion marchnadoedd twf.

**Croeso Cymru – Gweithgareddau Arfaethedig**

**Ymgysylltu â'r Diwydiant**

2.5 Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu gwybodaeth electronig a fydd ar gael ar-lein ac a fydd yn anelu at annog y diwydiant twristiaeth i weithio mewn ffordd fwy cynaliadwy a gwella'r modd y mae'n mynd ati i reoli'r amgylchedd. Bydd yr wybodaeth honno'n cynnwys:

**Astudiaethau achos** am fusnesau sydd wedi ennill gwobrau, sy'n defnyddio'r arferion gorau ac sy'n rhan o Gynllun y Ddraig Werdd. Mae'r astudiaethau hyn yn tynnu sylw at ffyrdd o arbed costau, ac yn rhoi awgrymiadau i fusnesau am yr arferion amgylcheddol gorau.

**Gwefan newydd a gwell ar gyfer Croeso** Cymru – Bydd Croeso Cymru yn cyhoeddi deunydd mwy cyffredinol a deunydd cynghori

ar-lein ar ffurf PDF, gan leihau'r angen i ddefnyddio papur. Bydd y

deunydd hwn yn cynnwys gwybodaeth allweddol ynghylch sut y gall busnesau twristiaeth fod yn fwy cynaliadwy, a bydd hefyd y cynnwys pecynnau cymorth, cyngor, canllawiau, arferion gorau a dolenni pellach.

**Adolygiad o'r meini prawf ar gyfer cynllun graddio wedi'i gysoni (2009)** – Bwriedir mynd ati yn ystod yr adolygiad hwn i ystyried

a oes modd cynnwys yn y cynllun graddio wybodaeth am yr arferion gorau o ran cynaliadwyedd ac o ran hygyrchedd. Bwriedir hefyd gynnal sesiwn hyfforddiant arbenigol ym mis Mawrth 2009 er mwyn gwella sgiliau Cynghorwyr Ansawdd ym maes cynaliadwyedd ac o ran pwyso a mesur a oes unrhyw wrthdaro posibl rhwng cynaliadwyedd a'r cynllun graddio. Bydd hyn yn fodd i sicrhau bod y cynghorwyr yn fwy abl i ymateb i anghenion busnesau.

Y rhaglen **Croeso** newydd a lansiwyd gan Groeso Cymru, sydd â'r nod o wella gallu busnesau a chymunedau i gyflwyno diwylliant a threftadaeth Cymru i ymwelwyr. Mae 3 prif elfen i'r rhaglen:

**Croeso i Gymru** – y cynllun naws am le. Bydd yr elfen hon yn helpu busnesau i gyflwyno naws Gymreig i'w busnes, ac yn eu hannog i ddefnyddio bwyd lleol, gan leihau milltiroedd bwyd.

**Croeso Cynnes** – cwrs fydd hwn ar wasanaethau i gwsmeriaid ar gyfer busnesau twristiaeth. Bydd yn canolbwyntio ar hyfforddi staff rheng flaen i gyfleu ymdeimlad o le i ymwelwyr.

**Croeso Cymraeg** - mae'r elfen hon yn ymwneud â defnyddio ymadroddion Cymraeg syml. Bydd yn gynllun hunan-ardystio lle bydd y busnes ei hun yn mynd ati i nodi faint o Gymraeg a ddefnyddir.

Mae seminarau'n cael eu cynnal ledled Cymru ar hyn o bryd er mwyn i fusnesau fedru dysgu mwy am y rhaglen.

Yr arweinlyfr "**Ffynnu'n Wyrdd**" sy'n dangos rhai o'r enghreifftiau gorau o fusnesau twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru ac sy'n rhoi sylw i'r camau allweddol y mae angen eu cymryd er mwyn rhoi arferion cynaliadwy ar waith mewn busnesau twristiaeth.

**Sioeau Teithiol/Gweithdai 2009** – Gan adeiladu ar lwyddiant y sioeau teithiol ar gyfer y diwydiant a gynhaliwyd yn 2008 ac a oedd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd, bydd Croeso Cymru yn ystyried yr opsiynau ar gyfer adeiladu ar y gwaith hwn mewn sioeau teithiol/gweithdai yn y dyfodol, a bydd yn mynd ati hefyd i gydweithio â sefydliadau allweddol megis yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

**Gwell marchnata** ar gynhyrchion twristiaeth "gwyrdd" – bydd Croeso Cymru'n mynd ati drwy ei wefan i adolygu'r cynhyrchion sydd ar gael ar hyn o bryd, megis busnesau sy'n rhan o Gynllun y Ddraig Werdd a chynlluniau eraill sydd wedi ennill gwobrau. Bydd yn anelu hefyd at geisio sicrhau bod rhagor o bobl yn cael gwybod am gynlluniau o'r fath

**Arolygon ym maes twristiaeth gynaliadwy sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac y bwriedir eu cynnal yn 2009 –** Mae Croeso Cymru yn cydweithio gyda Chynghrair Twristiaeth Cymru i hyrwyddo'r arolwg sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn pwyso a mesur agweddau pobl at dwristiaeth gynaliadwy, a'r hyn y maent yn ei wybod amdani. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn llywio gwaith a gaiff ei wneud yn y dyfodol ar gynaliadwyedd ac ar godi ymwybyddiaeth yn ei gylch. Bydd ynddo gwestiynau allweddol ynghylch defnyddio ynni, ac ynghylch dealltwriaeth gyffredinol o fewn y sector. Bwriedir hefyd gynnal arolwg gwahanol yn 2009 er mwyn gwella ansawdd y data sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn yr Is-gyfrif Amgylcheddol Twristiaeth. Bydd hyn yn fodd i gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiau allweddol y diwydiant twristiaeth, gan gynnwys effeithiau o ran CO2, dwr, gwastraff ac ynni.

**Partneriaethau**

2.6 Mae Croeso Cymru yn cydweithio'n agos â nifer o bartneriaid yng Nghymru er mwyn cyrraedd y nodau allweddol sydd yn y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Ddiwylliannol, sy'n pwysleisio'r angen i'r diwydiant leihau ei ôl troed a datblygu arferion mwy cynaliadwy. Mae'r partneriaid hynny'n cynnwys:

Y Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy, a'i gynllun gweithredu 2008-11

Y Bartneriaeth Môr Glas, a'i Chynllun Datblygu 2006-15

Y Grwp Gweithredu Twristiaeth Arfordirol

Y Bartneriaeth Twristiaeth Ddiwylliannol, a'i chynllun gweithredu

2.7 Mae hefyd yn gweithio ar nifer o fentrau eraill ym maes twristiaeth gynaliadwy gyda phartneriaid allweddol megis **Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**, **Parc Cenedlaethol Eryri** a **Chymdeithas Eryri**, a **Gwyl y Gelli** ar ddatblygu mentrau **trafnidiaeth gynaliadwy** ar gyfer twristiaid, gan hyrwyddo a datblygu cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau trafnidiaeth gynaliadwy.

2.8 Mae Croeso Cymru yn gweithio ar draws yr adrannau er mwyn sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy yn cael ei hintegreiddio i fentrau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoddir enghreifftiau isod:

Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai – cydweithio ar gynllun gweithredu ar ansawdd dwr, sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth Môr Glas

Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (Adfywio) – sicrhau bod twristiaeth gymunedol yn parhau i gael ei datblygu a bod model Herian yn cael ei gyflwyno ar draws y rhaglen adfywio

Adran yr Economi a Thrafnidiaeth – yn sicrhau bod darpar fusnesau ym maes twristiaeth yn cael cyngor priodol am gynaliadwyedd

Yr Adran Materion Gwledig – sicrhau bod y prosiectau twristiaeth sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cyd-fynd â blaenoriaethau Croeso Cymru o ran twristiaeth gynaliadwy

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru – mapio prosiectau twristiaeth a gyllidir ag arian yr UE er mwyn sicrhau bod cynifer o ardaloedd ag y bo modd yn rhan ohonynt ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu yn y dyfodol

## Gwobrau

2.9 Mae Croeso Cymru yn cefnogi nifer o wobrau ym maes twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru. Mae'r gwobrau hyn yn tynnu sylw at arferion amgylcheddol da, ac at y busnesau hynny sy'n llwyddo i ddefnyddio llai o ynni a dwr ac i greu llai o wastraff. Yn eu plith y mae'r isod:

Gwobrau Busnes a Chynaliadwyedd Cymru - mae effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn thema allweddol

Gwobrau Twristiaeth Gynaliadwy y Gogledd (Cymdeithas Eryri)

Cymru yn ei Blodau – annog trefi a chymdogaethau i fynd ati ar y lefel leol i fabwysiadu rhagor o arferion sy'n ystyried yr amgylchedd

Mae Gwobr Toiledau'r Flwyddyn 2009 yn canolbwyntio ar yr arferion amgylcheddol gorau ac ar dechnolegau arloesol newydd

Cadw Cymru'n Daclus – gwella'r amgylchedd

## Ymchwil

2.10 Bydd Croeso Cymru'n cynnwys cwestiynau/themâu allweddol yn ymwneud â chynaliadwyedd yn ei raglenni ymchwil arfaethedig, gan gynnwys:

Grwpiau Ffocws ar Dwristiaeth Ddiwylliannol (Chwefror 2009)

Arolwg ymhlith ymwelwyr

Arolwg olrhain a gwerthuso

Ymchwil i ymatebion defnyddwyr (e-bost)

## Marketing

2.11 Mae ymgyrch farchnata bresennol Croeso Cymru yn dwyn sylw at agweddau ar wyliau cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r adran farchnata wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r modd y caiff gwaith marchnata ei gynllunio, a bydd yn sefydlu hyrwyddwyr gweithgareddau gwyrdd, diwylliant a bwyd er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o waith marchnata.

**Prosiectau Arfaethedig 2009**

**Yr Is-gyfrif Amgylcheddol Twristiaeth –**

Mae Croeso Cymru yn parhau i ddefnyddio'r Is-gyfrif Twristiaeth er mwyn mesur yr effeithiau allweddol y mae twristiaeth yn eu cael ar yr amgylchedd CO2, dwr, a gwastraff)

Mae Croeso Cymru am geisio gwella'r model hwn drwy'r arolwg arfaethedig o fusnesau twristiaeth y bwriedir ei gynnal yn 2009

**Cronfeydd Cydgyfeirio yr UE – prosiectau Amgylchedd ar gyfer Twf –** prosiectau Twristiaeth Arfordirol a Thwristiaeth Gynaliadwy (sydd heb eu cymeradwyo hyd yma) – nod y prosiectau hyn yw datblygu canolfannau rhagoriaeth strategol allweddol ar dir ac ar arfordir Cymru ar gyfer cynhyrchion twristiaeth sy'n gynaliadwy ac sy'n annog gweithgareddau hamdden cynaliadwy, twristiaeth gynaliadwy a rheolaeth ar yr amgylchedd.

**Astudiaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd a Thwristiaeth** – mae Croeso Cymru'n cynnal astudiaeth i'r effaith bosibl y bydd y newidiadau a ragwelir i hinsawdd Cymru hyd at y flwyddyn 2030 yn ei chael ar y diwydiant twristiaeth, gan edrych ar y bygythiadau a'r cyfleoedd posibl. Disgwylir i'r adroddiad am gam cyntaf yr astudiaeth fod yn barod ar ôl i senarios diwygiedig Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU 2009 gael eu cyhoeddi, a bydd yr adroddiad hwnnw'n canolbwyntio ar ystyried a fydd y newidiadau i hinsawdd Cymru yn effeithio ar y galw am wyliau yng Nghymru.

**Cynnig ar Reoli Cyrchfannau** – nod y system arfaethedig i reoli cyrchfannau yw sicrhau twf cynaliadwy ym maes twristiaeth ledled Cymru. Daeth yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig hwn gan Groeso Cymru i ben ar 30 Ionawr.

**Cronfeydd Cydgyfeirio yr UE** – y prosiect Twristiaeth Ddigidol – (sydd heb ei gymeradwyo hyd yma) – nod y prosiect hwn yw datblygu fframwaith ar gyfer ymgyrchoedd marchnata digidol, sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein a bod llai o angen i argraffu copïau caled.

**Interreg IVc –** y Rhwydwaith Twristiaeth Ddiwylliannol Ewropeaidd – dangos yr arferion gorau o ran rheoli twristiaeth mewn modd cynaliadwy, a'r Is-gyfrif Amgylcheddol Twristiaeth

**Gwneud Gweithrediadau Croeso Cymru yn fwy Gwyrdd – Mewnol –**

Mae Croeso Cymru yn cydweithio â'r Tîm Materion Gwyrdd er mwyn cyrraedd Lefel 5 Cynllun y Ddraig Werdd yn Nhy Brunel erbyn mis Mawrth 2009

## 3. Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd

### Amgueddfa Cymru

3.1 Yn unol â'i Llythyr Cylch Gwaith blynyddol, mae'n ofynnol i Amgueddfa Cymru brif ffrydio datblygu cynaliadwy i'r modd y mae'n cynnal ei busnes. Mae'n rhaid iddi hefyd fod yn ymwybodol o ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â chaffael cynaliadwy, a pharatoi i wireddu'r ymrwymiadau hynny.

3.2 Y ffordd bwysicaf sydd gan yr Amgueddfa i gyfrannu at yr agenda datblygu cynaliadwy yw drwy'r rôl sydd ganddi o ran addysgu'r cyhoedd, a thrwy ei gallu i gyrraedd dros 1.5 miliwn o bobl y flwyddyn drwy'r arddangosfeydd, y digwyddiadau a'r gweithgareddau allanol y mae'n eu cynnal.

3.3 Mae'r Amgueddfa wedi bod ar flaen y gad o ran cyflwyno materion amgylcheddol i'r cyhoedd, a hynny drwy 'Dy'r Dyfodol' yn Sain Ffagan. Enghraifft fwy diweddar oedd yr arddangosfa dros dro 'Newid yn yr Hinsawdd - Beth sy'n Digwydd?' a gynhaliwyd yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Cafodd yr arddangosfa hon ei datblygu ar y cyd ag Is-adran Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n rhoi cyngor i gymunedau ar sut i fynd ati i leihau eu hôl troed carbon.

3.4 Yn y tymor hwy, bydd cynlluniau datblygu'r Amgueddfa yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'i negeseuon allweddol. Bydd y modd y mae dyn a'r amgylchedd naturiol yn cydadweithio yn un o'r themâu allweddol a gaiff ei hystyried yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Y bwriad ym Mharc Cathays yw creu amgueddfa a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd am gynaliadwyedd, am y newid yn yr hinsawdd ac am golli bioamrywiaeth. Mae casgliadau'r Amgueddfa yn ei galluogi i fonitro'r newidiadau sy'n digwydd ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol eisoes i ymchwil yn y maes hwn.

3.5 Gan gydnabod yr angen iddi leihau ei hôl troed carbon, yn ogystal â chwtogi ar ei chostau ynni, mae'r Amgueddfa wedi cymryd camau sylweddol yn ddiweddar i gwtogi ar yr ynni y mae'n ei ddefnyddio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyfanswm o £250,000 o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2008-09 ac yn 2009-10 er mwyn galluogi'r Amgueddfa i fuddsoddi mewn rhaglen eang o fentrau i gwtogi ar yr ynni y mae'n ei ddefnyddio. Mae'r Amgueddfa'n cyfrannu £50,000 o'i hadnoddau ei hun.

3.6 Mae'r mentrau eraill yn cynnwys rhaglen i godi ymwybyddiaeth ymhlith y staff, a mynd ati, ar y cyd â'r sector amgueddfeydd ehangach, i ystyried sut y gellir lleihau'r costau ynni sy'n gysylltiedig â gofalu am ei chasgliadau.

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru

3.7 Mae'n ofynnol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd brif ffrydio datblygu cynaliadwy i'r modd y mae'n cynnal ei busnes, a hynny yn unol â'i Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol. Mae'n rhaid iddi hefyd fod yn ymwybodol o ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â chaffael cynaliadwy, a pharatoi i wireddu'r ymrwymiadau hynny.

3.8 Mae'r Llyfrgell yn hyrwyddo negeseuon am gynaliadwyedd, gan wneud hynny'n fewnol ymhlith y staff, ac ymhlith y cyhoedd. Mae dwy arddangosfa wedi'u trefnu ym mannau cyhoeddus y Llyfrgell sy'n dangos y camau a gymerwyd a'r canlyniadau a gafwyd wrth fynd ati i ddefnyddio llai o ynni a phapur ac i reoli gwastraff. Cafodd darlith gyhoeddus gan y Ganolfan Dechnoleg Hamdden am yr 'ôl troed carbon' ei chynnal yn y Llyfrgell.

3.9 Mae wrthi ar hyn o bryd yn datblygu gwasanaethau helaeth

ar-lein drwy ei gwefan www.llgc.org.uk er mwyn i bobl fedru manteisio ar yr adnoddau sydd ganddi o bell. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhaglen ddigideiddio uchelgeisiol a fydd yn golygu y bydd modd i'r cyhoedd weld llawer o gasgliadau'r Llyfrgell ar-lein. Caiff defnyddwyr gofrestru hefyd i ddefnyddio adnoddau electronig y Llyfrgell, sy'n cael eu darparu'n rhad ac a ddim i aelodau'r Llyfrgell drwy danysgrifiadau. Yn ystod 2008, cafodd gwefan y Llyfrgell ei defnyddio bob mis gan oddeutu 104,000 o bobl ar gyfartaledd. At hynny, mae tîm ymholiadau'r Llyfrgell yn ateb ymholiadau drwy'r post a'r e-bost.

3.10 Aeth y Llyfrgell ati yn 2008/09 i fabwysiadu datganiad Polisi Amgylcheddol sy'n tanlinellu ymrwymiad y Llyfrgell i leihau cymaint â phosibl ar yr effaith y mae'n ei chael ar yr amgylchedd, i ddefnyddio llai o ynni, i atal llygredd ac i gadw safon y Ddraig Werdd.

3.11 Mae Gweithgor mewnol y Ddraig Werdd wedi'i sefydlu ac mae'n cael cymorth yr Ymddiriedolaeth Garbon a rhwydwaith ARENA. Hyd yma, mae'r Llyfrgell wedi llwyddo i gyrraedd ac i gadw lefel 2 o dan Gynllun y Ddraig Werdd. Drwy gymryd amryfal gamau, mae'r Llyfrgell wedi llwyddo i ddefnyddio llai o ynni (o'i gymharu â lefelau 2006), er gwaethaf y ffaith bod ganddi ystafell gyfrifiaduron newydd. Mae wedi llwyddo hefyd i gynhyrchu cyn lleied â phosibl o wastraff nad oes modd ei ailgylchu.

### TGCh a digideiddio

3.12 Mae prosiectau digideiddio'n gallu bod o gymorth o ran sicrhau twf economaidd, creu swyddi a sicrhau datblygu cynaliadwy, gan gynnwys datblygu rhanbarthol. Mae'r broses o ddigideiddio'n fodd i ddatblygu ac i gynnal gweithlu medrus, ac mae'n creu cyfleoedd i sicrhau mynediad at wybodaeth.

3.13 Mae modd gweld cofnodion sydd wedi'u digideiddio heb orfod teithio i'r man lle mae'r dogfennau gwreiddiol yn cael eu cadw. Heblaw hynny, mae'r ffaith bod yr wybodaeth hon ar gael ar-lein yn ennyn mwy o ddiddordeb, ac yn fodd i roi mwy o ran i ddinasyddion ac i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd wedi'i darparu ar eu cyfer. Os yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion economaidd ac addysgol, gall hyn esgor ar fanteision economaidd uniongyrchol. Mae hefyd yn gallu esgor ar fanteision anuniongyrchol o ran canlyniadau cymdeithasol cadarnhaol.

3.14 Un enghraifft yw Casgliad y Bobl / The People's Collection, sef ymrwymiad a wnaed yn y ddogfen Cymru'n Un i sefydlu Casgliad Cymru gyfan o Hanes Pobl Cymru. CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yw'r is-adran sy'n gyfrifol am arwain y gwaith hwn ac mae cyllideb o oddeutu £2 filiwn ar gael ar gyfer y prosiect. Y nod yw codi ymwybyddiaeth am hunaniaeth ddiwylliannol a hanes Cymru drwy ddarparu deunydd ac adnoddau dysgu ar-lein, drwy gynnig cyfleoedd i feithrin rhwydweithiau cymdeithasol rhyngweithiol, a thrwy ddarparu rhithfan lle gall sefydliadau treftadaeth a diwylliannol feithrin cysylltiadau â chynulleidfaoedd newydd.

3.15 Enghraifft arall yw'r prosiect Glaniad a drefnwyd gan Culturenet Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i digideiddio ar gael mewn pecynnau addysg sy'n addas at ddibenion y cwricwlwm cenedlaethol. Bellach, mae cofnodion a oedd gynt wedi'u gwasgaru ar draws Cymru a Phatagonia ar gael ar-lein mewn un man, sy'n golygu nad oes angen i ymchwilwyr sydd â diddordeb yn y Wladfa deithio cymaint ag o'r blaen.

## 4. Yr amgylchedd hanesyddol

4.1 Mae diogelu a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, gan ddefnyddio dulliau a sgiliau traddodiadol yn rhywbeth sy'n gynaliadwy yn ei hanfod, ac mae'n cyfrannu at natur unigryw Cymru.

4.2 Caiff hyn ei gydnabod yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, yng Nghynllun Gofodol Cymru ac yn y Strategaeth Amgylcheddol. Mae adroddiad yr Is-grwp Ymaddasu i Newid Hinsawdd am 'Addasu'r Amgylchedd Adeiledig' yn cyfeirio at greu galw yn y farchnad am y deunyddiau traddodiadol a lleol y mae eu hangen er mwyn cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau hanesyddol. Cyfeirir ynddo hefyd at y manteision economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwella sgiliau gweithluoedd lleol.

4.3 Mae 4 cam gweithredu penodol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru:

"22. "Datblygu strategaeth i fynd i'r afael â sefyllfa adeiladau rhestredig

mewn perygl:

Comisiynu rhagor o ymchwil annibynnol i ystyried ffyrdd o gyflwyno trosolwg cenedlaethol o strwythurau sydd 'mewn perygl' a ffyrdd o fesur perfformiad, ac adroddiad i gael ei dderbyn erbyn mis Gorffennaf 2009.

Ymgynghori trwy'r Fforwm Treftadaeth Adeiledig, 2009.

"23. "Adolygu opsiynau ar gyfer monitro cyflwr henebion maes ar dir amaethyddol, yn seiliedig ar werthuso'r adnoddau presennol a datblygu methodoleg gan Brifysgol Caerloyw ac eraill, erbyn diwedd 2008, a datblygu strategaeth erbyn mis Ebrill 2009":"

"24. "Cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw a gwella ansawdd ac amrywiaeth y

dirwedd hanesyddol trwy barhau i ddatblygu a hyfforddi rhaglen o bennu

nodweddion gwledig a threfol:

Cwblhau rhaglen o bennu nodweddion yr holl dirweddau hanesyddol cofrestredig erbyn mis Ebrill 2009.

Cynnal astudiaethau peilot o bennu nodweddion trefol o leiaf 4 o drefi erbyn mis Ebrill 2009.

Cynhyrchu cyhoeddiad rhagarweiniol ynghylch astudiaethau pennu nodweddion a chyhoeddi canllawiau manylach erbyn mis Mehefin 2009.

Darparu o leiaf un digwyddiad hyfforddi ar astudiaethau pennu nodweddion erbyn mis Mehefin 2009.

Datblygu rhaglen o astudiaethau pennu nodweddion trefol mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio lleol erbyn mis Medi 2009.

"25. "Cyhoeddi Datganiad Strategol ar amgylchedd hanesyddol Cymru a chynhyrchu set o werthoedd ac egwyddorion cadwraethol ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru erbyn Rhagfyr 2009:

Cyhoeddi drafft ymgynghori o'r Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol yn hydref 2008.

Cyhoeddi'r Datganiad Strategol terfynol yng ngwanwyn 2009.

Ymgynghori â rhanddeiliaid ar egwyddorion cadwraeth drafft yng ngwanwyn 2009.

Cyhoeddi Egwyddorion Cadwraeth erbyn mis Rhagfyr 2009.

4.4 Hefyd, mae cam gweithredu penodol yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned:

"15. – "Byddwn yn sicrhau y caiff amrywiaeth o safleoedd diwylliannol a threftadaeth eiconig yng Nghymru eu gwarchod gan ddefnyddio technegau cynaliadwy" "a sgiliau traddodiadol yn ogystal â sicrhau mynediad gwell i'r cyhoedd

### Ystad Cadw

4.5 Mae 127 o henebion eiconig yng ngofal Cadw – gan gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd.

4.6 Ymgymerir â rhaglenni gwaith cyfalaf blynyddol Cadw gan grefftwyr medrus (mae tua 40 ohonynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol; ac eraill yn cael eu cyflogi fel contractwyr), sy'n defnyddio technegau cynaliadwy a deunyddiau traddodiadol. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, defnyddir llafur a deunyddiau lleol, gan ddefnyddio deunyddiau sydd wedi'u hadfer lle bo modd, ac mae hyn yn gydnaws â'r nod o warchod adeiladwaith yr amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy.

4.7 Mae gan Cadw gynllun prentisiaeth lle gall pobl ddysgu ac ennill cymwysterau mewn sgiliau traddodiadol, gan wneud hynny drwy gyfuniad o ddatblygiad mewn swydd a dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae hefyd yn un o bartneriaid Cynllun Bwrsariaeth Sgiliau Traddodiadol Cymru a Lloegr, sy'n cynnig cyllid a lleoliadau profiad gwaith er mwyn mynd i'r afael â phrinder sgiliau a bylchau o ran sgiliau yn y sector crefftau adeiladu traddodiadol.

4.8 Ar hyn o bryd, mae Cadw wrthi'n treialu llifoleuadau LED (deuodau allyrru golau) ynni isel mewn rhai o'i henebion. Rhagwelir y bydd defnyddio technegau o'r fath yn fodd i sicrhau bod llawer yn llai o ynni'n cael ei ddefnyddio ac yn fodd hefyd i sicrhau llai o allyriadau CO2. Mae Cadw hefyd yn monitro faint o ynni a ddefnyddir ym mhob un o'i henebion, yn ogystal â monitro'u hallyriadau carbon.

4.9 Pan fo offer gwresogi/oeri mewn canolfannau ymwelwyr sy'n eiddo i Cadw yn dod at ddiwedd eu hoes economaidd, bydd Cadw'n mynd ati, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, i ystyried defnyddio ffynonellau ynni amgen megis pympiau sy'n codi gwres o'r ddaear.

4.10 Yn unol â pholisi Llywodraeth y Cynulliad, bydd Cadw'n sicrhau, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, fod yr holl gyfleusterau sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd yn cael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safon 'Rhagorol' BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) a bod o leiaf 10% o'r deunyddiau (yn ôl eu gwerth) mewn adeiladau o'r fath yn ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu. Dyma rai enghreifftiau penodol:

Caernarfon. Cafodd y bont newydd i mewn i'r castell a'r balconi cysylltiedig ym Mhorth y Frenhines, lle gall ymwelwyr fynd i fwynhau'r olygfa, eu hadeiladu gan ddefnyddio deunyddiau cryf y bwriedir iddynt bara am amser hir ac na fydd angen llawer o waith cynnal a chadw arnynt. At hynny, dim ond ychydig iawn o ynni y byddant yn ei ddefnyddio - e.e. bydd canllawiau ac arwyddion yn cael eu goleuo gan ddefnyddio ffynonellau LED (deuodau allyrru golau) ynni isel. Roedd llawer o'r gweithlu a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith hwn yn dod o'r Gogledd.

Castell Rhaglan. Wrth adeiladu'r ganolfan ymwelwyr newydd, gosodwyd system wresogi ynni isel dan y llawr. Mae'r system hon yn defnyddio pwmp sy'n codi gwres o'r ddaear ac mae wedi'i chysylltu â system awyru awtomatig. Defnyddir lwfrau allanol hefyd i gysgodi'r adeilad rhag y gwres. Mae'r toiledau newydd arfaethedig yn cael eu dylunio hefyd mewn modd a fydd yn bodloni targedau'r Cynulliad o ran arbed ynni ac yn cyrraedd safonau BREEAM – ac yn wir (lle bynnag y bo modd), bydd unrhyw ddatblygiadau gan Cadw ar safleoedd henebion yn y dyfodol yn cael eu dylunio yn yr un modd.

4.11 Mae Cadw'n gwario swm o oddeutu £4 miliwn y flwyddyn ar gynnal a chadw ei henebion ei hun – a thrwy fynd ati i hyrwyddo a marchnata, mae'n anelu at ddenu rhagor o ymwelwyr, a hynny am fod incwm oddi wrthynt hwy yn helpu i gyfrannu at y gwaith o gynnal yr henebion hyn.

### Yr Amgylchedd Hanesyddol Ehangach

4.12 Mae cefnogi'n treftadaeth, gan gynnwys ein hamgylchedd hanesyddol unigryw, yn hanfodol er mwyn sicrhau Cymru gynaliadwy, nid yn unig o ran creu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn ond hefyd o ran sicrhau bod modd adfywio cymunedau ac ymgysylltu â hwy mewn modd cynaliadwy.

### Diogelu a gwarchod

4.13 Mae parhau i ddefnyddio adeiladau hanesyddol, neu eu hailddefnyddio, gan ddefnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol i'w hadfer, yn rhywbeth sy'n gynaliadwy yn ei hanfod. Mae'r Cynllun Gofodol a'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn cydnabod y cyfraniad y mae'r amgylchedd hanesyddol ac adeiladau traddodiadol yn ei wneud i natur unigryw ardaloedd – mae cadw cymeriad unigryw yn rhan bwysig o greu cymunedau cynaliadwy.

4.14 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd na ellir ei adnewyddu – unwaith yr amherir ar adeilad, treflun neu dirwedd hanesyddol neu ar safle archaeolegol, neu unwaith y caiff nodweddion o'r fath eu difetha, nid oes modd adfer y sefyllfa.

4.15 Mae ynni 'cudd' mewn adeiladau hanesyddol – mae ailddefnyddio adeilad hanesyddol yn fwy cynaliadwy o lawer na'i ddymchwel ac adeiladu un newydd, ni waeth pa mor effeithlon y byddai'r adeilad newydd o ran defnyddio ynni.

4.16 Er bod rhai cartrefi hyn yn llai effeithlon ar hyn o bryd o ran defnyddio ynni na rhai o'r cartrefi mwy newydd, mae yna ffyrdd o fynd ati i'w gwneud yn fwy effeithlon o ran defnyddio ynni; mewn adroddiad diweddar a gyhoeddwyd yn Lloegr (Heritage Counts 2008), awgrymir nad yw tai teras traddodiadol ond ychydig yn llai effeithlon na thai modern.

4.17 Mae Cadw wrthi'n paratoi canllawiau ar gyfer perchenogion, awdurdodau lleol ac eraill ar gynnal a chadw adeiladau hanesyddol. Mae hefyd yn paratoi canllawiau ar sut y gellir mynd ati i osod systemau microgynhyrchu heb amharu ar ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archaeolegol adeilad neu safle.

### Grantiau ar gyfer Perchenogion

4.18 Mae Cadw'n darparu swm o dros £3 miliwn y flwyddyn er mwyn i berchenogion preifat, awdurdodau lleol a'r trydydd sector fedru mynd ati i atgyweirio ac i adfer adeiladau hanesyddol. Mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer gwaith adfywio drwy roi

grantiau ar gyfer cynlluniau cadwraeth mewn trefi.

4.19 Bydd cynlluniau grant newydd a gafodd eu cyhoeddi eleni yn fodd i annog pobl i warchod adeiladau hanesyddol, i barhau i'w defnyddio neu i fynd ati i'w hailddefnyddio – cynigir grant bach o £500 i fannau addoli rhestredig ar gyfer mân waith atgyweirio a fydd yn 'bwyth mewn pryd' er mwyn osgoi'r angen am waith atgyweirio drutach yn nes ymlaen; mae cynllun hefyd i annog ailddefnyddio adeiladau rhestredig gwag mewn ardaloedd gwledig – mae'r cynlluniau hyn yn annog cynaliadwyedd yn ogystal â helpu gyda gwaith adfywio.

### Adeiladau Rhestredig sydd mewn Peryg

4.20 Mae Cadw'n cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol i nodi adeiladau rhestredig sydd mewn perygl a'r rhesymau pam y maent mewn perygl. Mae hefyd yn rhoi arian iddynt ar gyfer y gwaith hwn, a'i ddiben yw ceisio sicrhau bod modd targedu cymorth yn well [mae oddeutu 10% o adeiladau rhestredig Cymru mewn perygl].

### Cynnwys Cymunedau

4.21 Yn aml, mae'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei ddiogelu am fod cymunedau'n rhoi gwerth ar eu treftadaeth ac yn gofalu amdano. Drwy annog pobl i ymweld â safleoedd hanesyddol, a'u mwynhau, gallwn ennyn eu diddordeb a'u symbylu i fod yn rhan o'r gwaith o'u diogelu.

4.22 Mae tua 560 o grwpiau treftadaeth gwirfoddol yng Nghymru, ac maent yn gwneud gwaith rhagorol e.e. maent yn achub adeiladau unigol fel y bo modd gwneud defnydd ymarferol ohonynt unwaith eto – mae grantiau ar gael oddi wrth Cadw ar gyfer cynlluniau o'r fath.

4.23 Mae Cadw wrthi hefyd yn meithrin perthynas waith agos â chymunedau a chyda'r sector twristiaeth er mwyn sicrhau bod manteision twristiaeth treftadaeth yn cael eu rhannu ar draws buddiannau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Bydd mynd ati mewn modd cydgysylltiedig i gyflwyno ac i hyrwyddo safleoedd yn annog ymwelwyr i fentro ymhellach na'r atyniadau poblogaidd arferol, ac yn fodd hefyd i estyn y tymor ymwelwyr ac i sicrhau bod treftadaeth yn cyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy.

### Twristiaeth Gynaliadwy

4.24 Mae Cadw'n aelod o'r Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy ac yn cyfrannu at y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy.

### Prawfesur Polisïau o safbwynt Cynaliadwyedd

4.25 Mae Cadw hefyd yn un o'r cyrff yr ymgynghorir â hwy pan fo ceisiadau cynllunio'n effeithio ar asedau hanesyddol, ac ymgynghorir ag ef hefyd mewn perthynas ag asesiadau amgylcheddol strategol ac asesiadau o'r effaith amgylcheddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol, a'r cyfraniad y gall ei wneud o ran cynaliadwyedd, yn cael eu hystyried yn llawn pan fo bwriad i ddatblygu o'r newydd. Yn 2008, ymgynghorwyd â Cadw mewn perthynas â 940 o achosion o'r fath.

## 5. Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon

### Yr Iaith Gymraeg

5.1 Rydym am i ragor o bobl fedru dysgu Cymraeg ac am weld yr iaith yn ffynnu fel iaith gymunedol mewn nifer o gymunedau ledled Cymru. Byddwn yn gwneud cais am ragor o gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg; ac yn cynnig rhagor o gyllid a chymorth ar gyfer cylchgronau a phapurau newydd cyfrwng Cymraeg. Bydd y cytundeb cyllido newydd gyda Golwg Cyf yn golygu y bydd cwmni newyddion sefydlog yn cael ei ddatblygu yn y Gorllewin a bydd yn fodd i sefydlogi newyddiaduraeth Gymraeg.

5.2 Mae'n fwriad gennym ddefnyddio'r Offeryn Integreiddio Polisi pan fyddwn yn mynd ati dros y misoedd nesaf i ddatblygu'r fframwaith polisi ar gyfer yr iaith Gymraeg.

### Chwaraeon

5.3 Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am redeg ei ddwy Ganolfan Genedlaethol, ac mae targedau uchelgeisiol o ran lleihau carbon wedi'u pennu ar gyfer y naill ganolfan a'r llall.

### Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Dwr Plas Menai

Ar ôl i adroddiad gael ei gomisiynu oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Garbon, penderfynwyd y byddai modd i'r Ganolfan ddefnyddio 13.7% yn llai o ynni neu arbed £12,173 y flwyddyn, sef 13.8% o'r costau.

Mae hyn gyfystyr â 75.3 o dunelli'n llai o CO2 neu 20.5 o dunelli'n llai o garbon.

### Athrofa Chwaraeon Cymru

Bydd ffenestri newydd yn cael eu gosod a'r inswleiddio'n cael ei wella yn ochr ddeheuol yr Athrofa yn ystod 2009/10.
Mae'r pwyntiau a ganlyn yn dod o adroddiad diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Garbon – 2010/11 ymlaen
Gosod system rheoli ynni yn yr adeilad

Datganoli'r systemau twymo dwr a'r systemau cyflenwi dwr poeth domestig
Gosod bwyleri modwlar yn lle'r bwyleri presennol
Gosod rhagor o reolyddion canfod presenoldeb ar oleuadau
Ôl-osod rheolyddion gyriannau amrywio cyflymder ar fotorau pwmpio hylif ac unedau trin aer
Byddai'r cynigion yn fodd i sicrhau bod yr adeilad yn defnyddio llai o ynni, a byddai hefyd yn lleihau ei ôl troed carbon.

## 6. I gloi

6.1 Mae'r Adran wedi ehangu mynediad i'r llu o weithgareddau treftadaeth a diwylliannol sydd ar gael yng Nghymru, gan sicrhau eu bod ar gael i bawb yn ddiwahân, lle bynnag y maent yn byw ac ni waeth beth yw eu cefndir na faint o incwm sydd ganddynt.

6.2 Mae'r papur hwn wedi dwyn sylw at yr amryfal raglenni a gweithgareddau sy'n sicrhau bod datblygu cynaliadwy'n cael ei brif ffrydio i'r modd y mae'r Adran yn cynnal ei busnes.

**Alun Ffred Jones AC**

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth**